| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **5, Gorffennaf, 2010.** |
| **PWNC** | **PROTOCOL LLEOL.** |
| **PWRPAS** | **GOFYN I'R PWYLLGOR YSTYRIED Y DRAFFT ATODOL A CHYFLWYNO ARGYMHELLIAD I'R CYNGOR.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Yn ei gyfarfod ar y 9fed o Chwefror fe benderfynodd y Pwyllgor ofyn am adroddiad ynglŷn â phrotocol lleol fyddai'n fodd i ddatrys cwynion o gam ymddwyn gan aelod yn erbyn aelod drwy drefn leol heb fynd ar gŵyn i'r Ombwdsmon.

2. Barn y Pwyllgor oedd y byddai'n fuddiol cael trefn leol fyddai'n fodd i ddatrys rhai cwynion llai difrifol yn gyflym ac yn effeithiol.

3. Atodaf ddrafft o ddogfen "Safon Gwynedd". Bwriad y ddogfen yw sefydlu pa ymddygiad gan aelodau sy'n dderbyniol a pha ymddygiad sy'n annerbyniol. Ni fwriedir iddi gymryd lle y Côd Ymddygiad. Yn hytrach bwriedir iddi weithio ochr yn ochr â'r Côd Ymddygiad a llenwi'r bwlch rhwng ymddygiad sydd efallai ddim ynddo'i hun yn ddifrifol, ond sydd eto yn creu annifyrrwch rhwng aelodau'r Cyngor ac ymddygiad sy'n cyrraedd y trothwy, sydd ddigon difrifol i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad iddo.

4. O fabwysiadu "Safon Gwynedd", y bwriad wedyn fyddai i unrhyw dramgwydd gael ei drin yn yr un ffordd a'r drefn leol ar gyfer datrys cwynion rhwng aelodau a swyddogion. Atgoffir y Pwyllgor o'r drefn honno sydd yn drefn dri cham, sef cyngor gan y Swyddog Monitro neu ei staff, cyfarfod anffurfiol rhwng yr aelodau ac yna gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Y gosb y gallai'r Pwyllgor Safonau ei defnyddio ydi cerydd.

5. Er mwyn symud ymlaen bydd angen ymgynghori ar y ddogfen "Safon Gwynedd" ac yna ei chyflwyno i'r Cyngor i'w mabwysiadu yn ffurfiol. Rhaid pwysleisio felly mai drafft cyntaf sydd gerbron y Pwyllgor ar hyn o bryd er mwyn i'r Pwyllgor gael cyfle i gyfrannu at lunio'r ddogfen cyn iddi fynd at yr aelodau am ymgynghoriad.

**<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor.